| | |
|---|---|
| **Adroddiad:** | **Adroddiad y Prif Swyddog** |
| **Awdur:** | **Katie Blackburn** |
| **Statws:** | **Er Gwybodaeth** |
| **Dyddiad:** | **30ain Tachwedd 2022 (adrodd i'r 15fed Tachwedd 2022)** |

## 1. Monitro a chraffu:

Fel CIC, roedden ni wedi medru dechrau rhywfaint o ymgysylltu wyneb yn wyneb â'r cyhoedd. Mae ein gallu i gynnal ymgysylltiadau yn y gymuned yn ddibynnol ar argaeledd aelodau a staff.

Rydyn ni'n parhau i ymgysylltu â'r cyhoedd trwy ddulliau digidol, trwy ein gwefan, y cyfryngau cymdeithasol a sianelau e-bost. Cynhelir y rhan fwyaf o gyfarfodydd CIC ar-lein ond mi rydyn ni'n treialu rhai cyfarfodydd hybrid (wyneb yn wyneb gydag argaeledd ar-lein). Mae aelodau a staff CIC yn parhau i ymuno â chyfarfodydd rhithiol gyda mudiadau eraill. Mae rhai mudiadau'n dechrau cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb ac yn ystyried pa fathau o gyfarfodydd fydden nhw'n eu cynnal yn y dyfodol. Fe fuon ni'n mynychu cymysgedd o gyfarfodydd rhithiol, hybrid ac wyneb yn wyneb.

Bu cynrychiolydd CIC Powys yn cymryd rhan yn y cyfarfodydd canlynol yn ystod y ddeufis diwethaf:

| | |
|---|---|
| 1 Medi | Cyfarfod Ymgysylltu i Newid Iechyd Meddwl Powys – fe roddon ni gyflwyniad ar yr arolwg a gynhaliwyd ganddon ni gyda phobl ifanc ynghylch iechyd meddwl yn ystod COVID |

| | |
|---|---|
| 13 Medi | Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (BIAP) Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch |
| 27 Medi | Cyfarfod Bwrdd Rhaglen Strôc Henffordd a Chaerwrangon |
| 28 Medi | Cyfarfod BIAP |
| 28 Medi | Cyfarfod Rhwydwaith Gweithwyr Cymunedol Trefyclo a Llanandras CMGP |
| 3 Hydref | Grŵp Gweithredu a Goruchwylio Rhaglen Trawsnewid Ysbyty'r Amwythig, Telford a Wrekin |
| 5 Hydref | Cyfarfod Rhwydwaith Ardal Leol Llandrindod, Rhayader, Llanfair-ym-Muallt a Llanwrtyd |
| 7 Hydref | Cyfarfod BIAP ynghylch Ysbyty Trefyclo (cyfarfod wyneb yn wyneb) |
| 12 Hydref | Cydgyfarfod CIC gyda Chyngor Sir Powys i drafod Corff Llais y Dinesydd (cyfarfod hybrid) |
| 13 Hydref | Agoriad Swyddogol Academi Iechyd a Gofal yn Ysbyty Bronllys |
| 18 Hydref | Pwyllgor Sicrwydd Adroddiad Ockenden Ymddiriedolaeth Ysbyty'r Amwythig & Telford |
| 20 Hydref | Pwyllgor Cynllunio, Partneriaethau a Iechyd Poblogaeth BIAP |
| 31 Hydref | Cyd-bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Canolbarth Cymru |

Mae rhai o'r cyfarfodydd hyn yn rhoi'r cyfle inni graffu ar yr hyn sy'n digwydd gyda gwasanaethau iechyd. Defnyddir cyfarfodydd eraill i gasglu gwybodaeth am y gwaith a wneir gan fudiadau eraill ac hefyd i hyrwyddo gwaith y CIC.

Rydyn ni wedi parhau gyda'n sesiynau briffio pythefnosol ar-lein ar gyfer aelodau CIC. Mae'r sesiynau hyn yn cynnig cyfle i aelodau i godi unrhyw faterion a ddaeth i'w sylw o fewn i'w cymunedau, gyda'r Cadeirydd a'r Prif Swyddog. Caiff unrhyw faterion neu bruyderon thematig wedyn eu codi gyda'r Bwrdd Iechyd trwy'r Prif Swyddog neu drwy Wasanaeth Eiriolaeth ar gyfer Cwynion CIC.

## Ymgysylltu Wyneb yn wyneb

Fe wnaethon ni fynychu'r digwyddiadau canlynol:

| | |
|---|---|
| 8 Medi | Cyflwyniad i Probus Aberhonddu yng Ngwesty'r *Brecon Castle* |
| 21 Medi | Ffair Gwybodaeth Cymunedol Cefnogi Cymuned Llanfair-ym-Muallt |
| 27 Hydref | Caffi Cawl Cymunedol Trefyclo |

## Probus Aberhonddu

Fe roddwyd cyflwyniad ganddon ni i'r Grŵp o waith y CIC , gyda trafodaeth yn dilyn am wasanaethau'r GIG. Trafodwyd y themâu canlynol:

- Anhawster yn cysylltu â Meddygfa Aberhonddu dros y ffôn
- Anhawster o ran cael apwyntiadau mewn modd amserol a'r awydd am fwy o apwyntiadau wyneb yn wyneb
- Diffyg pobl o gwmpas y feddygfa yn arwain at bobl yn cwestiynu beth mae staff y feddygfa'n ei wneud
- Problemau sicrhau apwyntiadau ar gyfer brechiadau ar gyfer y ffliw
- Anhawster cysylltu â'r fferyllydd cymunedol dros y ffôn (i weld a ydy meddyginiaeth presgripsiynau rheolaidd yn barod i'w casglu)
- Problem ynghylch plentyn a gymerwyd i Ysbyty'r Tywysog Siarl a'i ddanfon ymlaen at Ysbyty Athrofaol y Faenor (darparwyd gwybodaeth am Wasanaeth Eiriolaeth Annibynnol ar gyfer Cwynion Annibynnol os ydy'r teulu'n dymuno codi'r mater)

## Ffair Gwybodaeth Cymunedol Llanfair-ym-Muallt

Digwyddiad oedd hwn a fynychwyd gan nifer fawr o fudiadau Powys, yn darparu gwybodaeth am eu gwasanaethau, ac felly'n gyfle da i rwydweithio. Doedd dim gymaint â hynny o'r cyhoedd yn bresennol ond bu nifer cyson o bobl yn ymweld â stondin CIC.

Roedd y pynciau a drafodwyd fel a ganlyn:

- Llwybrau tu allan i'r sir i blant ag anghenion gofal cymhleth. Roedd cyfathrebu y tu mewn a thu allan i'r sir yn bryder.
- Cododd tri o bobl bryderon ynghylch hygyrchu darpariaeth deintyddol y GIG yn yr ardal.
- Mynediad at feyddygon teulu.
- Diffyg ysbyty cyffredinol rhanbarthol ym Mhowys.
- Pryderon ynghylch rhestrau aros hir ar gyfer gofal a gynlluniwyd.

Ffilmiwyd aelod o'n staff ar gyfer blog fideo yn ystod y digwyddiad a chewch ei weld yn y ddolen-gyswllt isod:

https://youtu.be/JjDqvYcz1Zs

**Cynllunio Digwyddiadau Ymgysylltu Wyneb yn Wyneb**

Rydyn ni'n gosod cynlluniau ar waith i gynnal y digwyddiadau ymgysylltu canlynol, yn amodol ar argaeledd staff ac aelodau:

| | |
|---|---|
| 8 Tachwedd | Digwyddiad Iechyd a Lles Machynlleth |
| 23 Tachwedd | Banc Bwyd Llandrindod |
| 28 Tachwedd | Clwb Henoed Ystradgynlais |
| 7 Rhagfyr | Caffi Cymunedol Y Drenewydd |
| 18 Ionawr | Banc Bwyd Aberhonddu |

## 2. Ymweliadau Monitro a Chraffu

Yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Gweithredol ym mis Medi, cytunwyd y bidden ni'n ymchwilio i'r posibilrwydd o gynnal rhywfaint o ymweliadau monitro a chraffu ag Ysbyty Aberhonddu, Ysbyty Ystradgynlais a'r Ganolfan Menywod a Phlant yn Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol, Telford.

Mae cynlluniau'n mynd rhagddo ar gyfer cynnal yr ymeliadau hyn. Cadarnhawyd y dyddiadau canlynol:

| | |
|---|---|
| 11 Tachwedd | Ysbyty Gymunedol Ystradgynlais |
| 1 Rhagfyr | Ysbyty Coffa Rhyfel Brycheiniog |

## 3. Y Cyfryngau Cymdeithasol

- Rydyn ni'n parhau i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn ddyddiol. Rydyn ni'n postio gwybodaeth CIC ar ein tudalennau Facebook a Twitter.  Rydyn ni'n defnyddio'r llwyfan i hysbysebu ein cyfarfodydd a'n harolygon.
- Ar hyn o bryd, mae ganddon ni **510** o ddilynwyr ar Twitter a **783** o ddilynwyr ar Facebook.
- Rydyn ni'n cynyddu ein cynnwys gwreiddiol ein hunain i rannu ar ein tudalennau ar y cyfryngau cymdeithasol.
- Rydyn ni'n rhannu ac yn ail-bostio gwybodaeth a ddarperir gan Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau Iechyd yng Nghymru, Ymddiriedolaethau yn Lloegr, meddygfeydd lleol, CICau eraill Cytngor Sir Powys a mudiadau GIG cenedlaethol.
- Rydyn ni'n monitro ac yn gwerthuso ymateb y cyhoedd i'r wybodaeth sy'n cael ei phostio.
- Rydyn ni'n monitro'n rheolaidd yr wybodaeth a rennir gan ddarparwyr gofal sylfaenol – meddygon teulu, fferyllfeydd, optegwyr a deintyddion.
- Rydyn ni'n parhau i fonitro ymatebn y cyhoedd i'r cynnig datblygu gwasanaeth ar gyfer y Gwasanaeth Casglu a Throsglwyddo Meddygol Brys (EMRTS Cymru)

## 4. Arolygon

Roedd ein 'Cwestiwn y Mis' ar gyfer mis Hydref yn ymwneud â phrofiad o'r gwasanaeth ambiwlans brys. Roedd yr arolwg ar-lein ar gael trwy ein gwefan ac fe'i rhannwyd yn helaeth ganddon ni ar y cyfryngau cymdeithasol. Caeodd yr arolwg gydag **83** ymateb. Mae dadansoddiad o'r ymatebion yn digwydd ac fe wnawn ni rannu'r hyn a glywson ni trwy adroddiad.

Roedd arolwg CIC Cymru Gyfan, yn gofyn i rannu eu sylwadau am yr ymateb i COVID-19 yng Nghymru, ar gael ar-lein trwy'r dolenni-cyswllt isod:

Cymraeg:

https://dweudeichdweudcicgigcymru.uk.engagementhq.com/pa-effaith-gafodd-y-pandemig-arnoch-chi

Saesneg:

https://HaveYourSayCHCWales.uk.engagementhq.com/uk-inquiry

Rydyn ni'n parhau i ddosbarthu copïau papur o'r arolwg ar bob cyfle. Hyd at Hydref 26, 2022, cwblhawyd cyfanswm o **1136** arolwg, gyda **144** ohonyn nhw'n cael eu cwblhau gan drigolion Powys. f them being completed by Powys residents.

Mae arolwg Cymru Gyfan CIC, 'Gofal y GIG yn Byw gyda COVID' ar gael ar-lein trwy'r ddolen-gyswllt isod ow.ly/KzSG50DZWHS ac ar gael ar ffurf papur. Rhennir yr arolwg hwn yn rheolaidd ar ein tudalennau ar Facebook a Twitter ac mae copïau papur hefyd ar gael.

## 5. Adroddiadau

Cyhoeddwyd yr adroddiadau canlynol ers fy adroddiad diwethaf i'r Pwyllgor Gweithredol:

**Mynediad at Ofal Deintyddol y GIG ym Mhowys**
https://powyscic.gig.cymru/files/llyfrgell-adroddiadau/mynediaed-i-ddeintyddion-gorffennaf-2022/

**Profiad Cleifion o Ddefnyddio Fferyllfeydd Cymunedol ym Mhowys**
[https://powyschc.nhs.wales/carousel-index/report-on-community-pharmacies-survey-july-2022/](https://powyschc.nhs.wales/carousel-index/report-on-community-pharmacies-survey-july-2022/)

Mae'r adroddiad yn dilyn arolwg 'Cwestiwn y Mis' am fynediad at wasanaethau meddygon teulu wedi'i rannu gyda'r Bwrdd Iechyd. Rydyn ni wedi derbyn ymateb gan y bwrdd Iechyd ac fe gaiff yr adroddiad ei gyhoeddi'n fuan.

## 4. Newid gwasanaeth ac ymgysylltu â chleifion:

Mae holl gyfarfodydd CIC Powys wedi'u hailsefydlu ac yn cael eu mynychu gan aelodau'r cyhoedd, gan gydnabod fod pob cyfarfod yn gyfarfodydd a gynhelir yng ngŵydd y cyhoedd, yn hytrach na chyfarfodydd cyhoeddus.

Mae cyfarfodydd ein Pwyllgor Gweithredol bellach yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb [gan fod y cyfarfod hwn yn canolbwyntio ar Lywodraethiant ac nad oes ganddon ni siaradwyr allanol].

Mae CIC Powys yn ystyried cyfarfodydd hybrid, tra'n cydnabod fod cyfarfodydd "rhithiol" wedi galluogi mwy o aelodau'r cyhoedd i ymuno, a charfan ehangach o siaradwyr/cyflwynwyr sy'n medru mynychu ar unrhyw adeg penodol ar gyfer eitem agenda benodol. Cynhaliwyd cyfarfod Pwyllgor Lleol Maldwyn ar Dachwedd 10fed, 2022 yn llwyddiannus fel cyfarfod hybrid.

Ar hyn o bryd, mae'r newidiadau i wasanaethau wedi bod yn bennaf yn rhai "brys" sy'n cael eu hystyried yn y Pwyllgor Cynllunio Gwasanaethau a fynychir gan Stephen Powell ac Adrian Osbourne.

Mae 2 broses ymgysylltu wedi'u trafod a'u cadarnhau yn y Pwyllgor Gweithredol ers cyfarfod diwethaf BIAP ar Fedi 28ain, 2022:

1. Cafwyd cadarnhâd ffurfiol o'r penderfyniad yn electronig ym mis Hydref 2022 – Newid Gwasanaeth Afraethedig Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru; hyd yr Ymgysylltiad.

Dyma gadarnhau i Bwyllgor Gweithredol CIC Powys:

i) gytuno’n unfrydol (yn electronig) i ymgysylltiad cynhwysfawr o 8 wythnos
ii) wneud cais am adolygiad / diweddariad wedi 6 wythnos
iii) wneud cais am roi ystyriaeth i gyfnod gwyliau’r Nadolig
iv) wneud cais i weld (a’r cyfle i wneud sylw ar) y Cynllun Ymgysylltu a Chyfathrebu (ymlaen llaw)
v) wneud cais i weld cynnig yr ymgysylltiad (ymlaen llaw)
vi) geisio eglurder ar yr amserlin ar gyfer y broses ymgysylltu a chyfathrebu
vii) geisio sicrwydd y bydd y broses yn gadarn, cynhwysol a thryloyw

2. Cadarnhâd ffurfiol o’r penderfyniad a gymerwyd yn electronig ym mis Hydref 2022.

Newid Gwasanaeth Arfaethedig - WAA/ EASC/ EMERTS – Hyd yr Ymgysylltiad.

Mae hyn i gadarnhau i Bwyllgor Gweithredol CIC Powys:

i) gytuno’n unfrydol (yn rhithiol) i ymgysylltiad cynhwysfawr o 8 wythnos
ii) wneud cais am adolygiad / diweddariad wedi 6 wythnos
iii) wneud cais am roi ystyriaeth i gyfnod gwyliau’r Nadolig
iv) wneud cais i weld (a’r cyfle i wneud sylw ar) y Cynllun Ymgysylltu a Chyfathrebu (ymlaen llaw)
v) wneud cais i weld cynnig yr ymgysylltiad (ymlaen llaw)
vi) geisio eglurder ar yr amserlin ar gyfer y broses ymgysylltu a chyfathrebu

vii) geisio sicrwydd y bydd y broses yn gadarn, cynhwysol a thryloyw

## 6. Eiriolaeth:

Achosion Agored Powys ar 1af Tachwedd, 2022: **36**

**(+ 17 Achos CIC Bae Abertawe)**

| | 1 Tach 2022 | 1 Medi 2022 | 1 Gorff 2022 |
|---|---|---|---|
| Cam Cwyniad | | | |
| Cyn Datrysiad Lleol | 6 | 1 | 3 |
| Datrysiad Lleol | 14 | 21 | 15 |
| Datrysiad Pellach | 0 | 2 | 3 |
| Ombwdsmon | 7 | 11 | 9 |
| Hawliad Ôl-weithredol Gofal Iechyd Parhaus | 1 | 1 | 1 |
| Unioni | 5 | 4 | 4 |
| Adolygiad Digwyddiad Difrifol | 3 | 2 | 2 |
| Cyfanswm | **36** | **42** | **37** |

PLR – Cyn Datrysiad Lleol: Mae gofyn i eiriolwr / ASO ddarparu cefnogaeth ynghylch pryderon na ellir eu "clirio" na'u datrys o fewn yr un diwrnod gwaith ac sydd angen ffurflen gydsynio. Mae'n golygu unrhyw gefnogaeth a ddarperir a roddir cyn anfon cwyn ysgrifenedig at fudiad y GIG

LR – Datrysiad Lleol: Yn dilyn cymeradwyo cwyn drafft, neu lythyr ysgrifenedig blaenorol at y mudiad GIG lleol sydd gofyn ei fonitro yn ôl polisi 30 diwrnod gwaith Gweithio i Wella (PTR)

FLR – Datrysiad Lleol Pellach: Cam datrysiad lleol yn dilyn derbyn ymateb i'r llythyr cyntaf o gŵyn (2ail lythyr, cyfarfod yn dilyn ymateb, adroddiad barn arbenigol annibynnol)

Unioni: Lle bo unioni'n cael ei ystyried o dan PTR o dderbyn llythyr *Rheoliad Regulation 26*.

Ombudsmon: Mae’r cais drafft cymeradwy i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi’i gyflwyno er ystyriaeth.

Dydy’r nifer o gwynion ddim yn adlewyrchu, mewn gwirionedd, cymhlethdod pob achos.

Ar gyfer pob cwyn, mae ‘digwyddiad’ ac mae i rai cwynion sawl ‘digwyddiad’ a all gynnwys sawl Bwrdd Iechyd a safle.

| | Nifer y Cwynion | Nifer y Digwyddiadau |
|---|---|---|
| **Tachwedd 2022** | **36** | **47** |
| **Medi 2022** | **42** | **54** |
| **Gorffennaf 2022** | **37** | **42** |

Yn olaf……… dymuna CIC Powys estyn eu diolch parhaus i holl staff BIAP am y trefniant, ymroddiad a’u hymrwymiad yn ystod yr amseroedd heriol iawn hyn. Mae cyfarfodydd wythnosol yn parhau rhwng CIC a BIAP i sicrhau ceisio datrys unrhyw faterion cyn gynted ag y bo modd. Diolch ichi.

**Katie Blackburn Prif Swyddog, CIC Powys**